pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Mai 2026 Rhif 519



Hetiau Ffair y Pasg, gw. tud 5

tud 2 **Llythyr Cerian**
tud 4 **Cacennau**
tud 7 **Pwy yw Toby?**
tud 12 **SheUltra**

# Drama'r Ffrwydron

Roedd wythnos olaf Ebrill yn gyfnod dramatig i'r ardal hon ac nid am fod Cwmni Theatr Troedyrhiw yn perfformio yn y Neuadd Goffa!

Yn gyntaf, ar 28 Ebrill, caewyd y ffordd fawr rhwng Maes-y-deri a Thaliesin oherwydd damwain beic-modur ac yn ddiweddarach caewyd y ffordd i'r de o bont Leri gan fod ffrwydron wedi'u darganfod ger Melinau Leri.

Roedd y ffrwydron mewn cwpwrdd metal a fu, mae'n debyg, yn eiddo i gwmni 'Mining Services' a berchnogwyd gan y diweddar Simon Hughes. Galwodd yr heddlu ar yr 'Explosive Ordnance Service' – y 'Bomb Squad' - oherwydd y perygl. Roedd y sawl a oedd yn byw o fewn 150 llathen i'r safle yn gorfod gadael eu cartrefi am gyfnod tra yr archwiliwyd y cwpwrdd.

Gosodwyd bagiau tywod i ddiogelu'r safle gyda chymorth bechgyn fferm Tan-yr-allt cyn dechrau'r archwiliad. Yr her fwyaf oedd torri trwy blisgyn metal y cwpwrdd i'w ddatgloi ac agor y drws. Roeddent yn defnyddio peiriant newydd sbon oedd yn gyrru dŵr dan bwysedd uchel wedi ei gymysgu â thywod drwy beipen i ddrilio twll go fawr. Ond cymharol ychydig o ronynau ffrwydron ar gyfer mwyngloddio a ganfyddwyd ynghyd â 'detonator'.

Penderfynwyd symud y ffrwydron am ddeg o'r gloch y bore canlynol a chaewyd y ffordd rhwng Tal-y-bont ac Ynys-las am gyfnod. Chwythwyd y ffrwydron ar draeth Ynys-las.

Rhwng y ddamwain ffordd a helynt y ffrwydron fe achosodd y cyfan gryn anhwylustod i deithwyr yr A487 mewn bws neu gar ond diolch i'r drefn, chafodd neb niwed o'r ffrwydron. Dioddefodd y beiciwr- modur anafiadau difrifol er ein bod yn deall ei fod yn gwella erbyn hyn.



*Y ffrwydro yn Ynys-las*



*Y 'Bomb Squad' yn archwilio'r safle*

**Pam fod Alison a Billy gyda'r bonheddwyr hyn?** Ateb ar dud. 3.





*Ynyr Tan-yr-Allt, aelod dros dro o'r 'Bomb Squad'*

pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 2


## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Casglu'r Papur:**
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Fal a Gwyn, a diolch i Ceri am ddylunio.

Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Non a Gerwyn (nonjones100@gmail.com).

Y dyddiad cau yw 5 Mehefin a bydd y papur ar werth ar 12 Mehefin.

# Llythyr

**Isod ceir llythyr a dderbyniwyd gan Cerian Screen a fu'n gweinyddu'r Fferyllfa am sawl blwyddyn cyn iddi adael yn Chwefror 2024. Bydd llawer o'n darllenwyr yn ei chofio am ei gwasanaeth a'r holl gymwynasau a wnaeth, ac am yr ymdrech a wnaed i'w chadw yn ei swydd.**

**Diolch o Galon i Dal-y-bont**

Mae ceisio rhoi hyn mewn geiriau yn llawer anoddach nag yr oeddwn yn ei ddisgwyl.

Nid yw Tal-y-bont erioed wedi bod yn le i mi weithio yn unig - mae wedi bod yn gymuned yr oeddwn yn teimlo'n rhan wirioneddol ohoni. O'm dyddiau cyntaf un yn y fferyllfa, cefais groeso cynnes, caredig ac ymddiriedaeth.



Dros amser, tyfodd hynny'n rhywbeth llawer mwy ystyrlon - y sgyrsiau ar draws y cownter, yr wynebau cyfarwydd, y chwerthin a rannwyd, a hyd yn oed yr eiliadau anoddaf y buom yn gweithio drwyddynt gyda'n gilydd - mae'r rhain i gyd yn bethau y byddaf yn eu cario gyda mi.

Cefais fy ngwahardd yn wreiddiol yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch fy ymarfer. Tua'r un pryd, codais bryder diogelwch cleifion yn ddidwyll fel rhan o fy nyletswydd proffesiynol. Dilynwyd hyn gan broses hir a chymhleth a gymerodd, yn anffodus, gryn dipyn o amser i'w datrys oherwydd problemau gweithdrefnol. Cefais fy ngwahardd o'm rôl ym mis Chwefror 2024, a dim ond yn ddiweddar y mae'r achos wedi dod i ben.

Rwyf bellach mewn sefyllfa i ddweud bod y mater wedi'i ddatrys yn llawn a'm bod wedi cael fy nghlirio o'r holl honiadau a wnaed yn fy erbyn.

Er ei fod yn rhyddhad cael y canlyniad hwn wedi'i gydnabod yn ffurfiol, nid yw'n dadwneud yr effaith y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi'i gael arnaf. Mae wedi dod ar gost bersonol a phroffesiynol sylweddol.

Hoffwn hefyd gydnabod a diolch i'r rhai a'm cefnogodd mor hael yn ystod y broses hon. Cymerodd cymaint o bobl yr amser i roi tystiolaethau a datganiadau tystion ar fy rhan – gan wneud ymdrech sylweddol yn aml i wneud hynny – ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny. Ni fyddaf yn enwi neb, ond rwyf am i chi wybod na fyddaf byth yn anghofio'r amser, y gofal a'r ymrwymiad a gymerodd. Roedd yn golygu mwy nag y gallaf ei fynegi'n iawn.

Drwy gydol hyn oll, ni newidiodd un peth erioed – y gefnogaeth gan bobl Tal-y-bont.

Mae'r caredigrwydd a ddangoswyd i mi wedi bod yn eithriadol.

Rwy'n drist iawn nad wyf yn rhan o fywyd bob dydd Tal-y-bont mwyach ond ar yr un pryd, rwy'n parhau i fod yn obeithiol am y dyfodol. Pe bai'r cyfle yn codi, byddwn yn croesawu dychwelyd un diwrnod ac unwaith eto bod yn rhan o'r gymuned hon rhywbeth a fyddai'n golygu llawer iawn i mi.

Diolch am eich ymddiriedaeth, eich amynedd, eich caredigrwydd, a'ch cefnogaeth ddiysgog. Mae wedi golygu popeth i mi, ac mae'n rhywbeth na fyddaf byth yn ei anghofio.

*Cerian*

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**MAI**

**17** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion 10 a 5.30 Bethel, Aberystwyth
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Gŵyl y Peillwyr 10–4 Cletwr

**18** Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch Ymweld â'r Tabernacl, Machynlleth

**20** Coffi a Chlonc 10.30–12 Neuadd Llanfach

**21** Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 7 Gweddi Hwyrol

**24** Bethel 10 Uno yn Seion, Emyr Gwyn Evans
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Bethesda, Tynant 2 Geraint Evans

**30** Bore Coffi Cymorth Cristnogol 10.30–12 Gwaelod Neuadd Goffa Tal-y-bont

**31** Bethel 10 Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

**MEHEFIN**

**7** Bethel 10 Uno yn Seion, Andrew Lenny
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid

**12** Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch Taith ddirgel

**BOB WYTHNOS**

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Bore Mawrth 10–12
Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
Cletwr Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'


## CYMORTH CRISTNOGOL

**BORE COFFI**

GWAELOD Y NEUADD GOFFA

**SADWRN, 30 MAI**
**10.30 - 12.00**

Croeso cynnes i bawb


## Clwb Cant Neuadd Llanfach

**Enillwyr mis Mawrth:**
1. Paul Fleming, Rhif 12
2. Anne Mitchel, Rhif 106
3. Wyn Griffiths, Rhif 26

**Enillwyr mis Ebrill:**
1. Linda Hicks, Rhif 7
2. Keith Fogg, Rhif 65
3. Heather Jones, Rhif 81

# Pobl a Phethe



## Anrhegu staff

Cynhaliwyd cinio arbennig gan Y Lolfa ym mwyty Kwizin yn Aberystwyth ddiwedd Ebrill er mwyn ffarwelio â dau o staff am eu hir-wasanaeth sef Paul a Julie. Cyflwynwyd llun trawiadol o waith yr artist Ruth Jên a blodau iddynt.



## Anrhydeddu Alison

Derbyniodd Alison Swanson, warden yn Eglwys Fach, Arian Cablyd Brenhinol yng Nghadeirlan Llanelwy ddydd Iau 2 Ebrill. Ar ddiwrnod heulog, roedd hi ymhlith 77 o fenywod a 77 o ddynion a dderbyniodd yr anrhydedd gan y Brenin Siarl III ei hun, a ddiolchodd iddi am ei gwaith dros yr eglwys a'r gymuned. Cydymaith Alison ar y diwrnod oedd ei hŵyr, Billy.

**Gweinidog Newydd**
Ym mis Medi eleni, bydd Eglwys Bethel, Tal-y-bont, ynghyd â thair eglwys arall yn y cylch, sydd yn yn rhan o Ofalaeth Newydd Gogledd Ceredigion, yn croesawu gweinidog newydd, Y Parchg Geraint Morse a thestun llawenydd i'r aelodau yn sicr. Cewch wybod mwy amdano yn rhifyn Medi o Papur Pawb.

**Eglwys St. Pedr, Elerch**
Braf oedd cael croesawu aelodau o Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch i gymuno gyda ni ar Ddydd Sul, 2 Mai. Cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad Y Parch Lynn Rees gyda 18 yn bresennol.

**Anrhydedd**
Llongyfarchiadau i'r Athro Peter Merriman, Gwynfa, Tal-y-bont, sydd wedi'i ethol yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, un o anrhydeddau academaidd pwysicaf Cymru.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda theulu'r diweddar Guy Pargeter, Goetre Fach, Llangynfelyn – Jan ei wraig a'r plant Olivia, Sarah, Andrew a Daniel a'r wyrion.

**Llongyfarchiadau**
Hyfryd oedd clywed y newyddion y bydd Jenny Jenkins (Southgate gynt) yn cael ei hurddo i'r Orsedd ym mis Awst yn Eisteddfod y Garreg Las am ei gwaith dyngarol i bobl Wcrain. Mae'r teulu'n falch iawn ohoni.

**Ar y ffordd**
Llongyfarchiadau mawr i Caoimhe Melangell, Penygro, Bontgoch ar basio ei phrawf gyrru.

**Dyweddio**
Dymuniadau gorau i Carwyn Tomos, Pentrebach a Juliette Aude Mouton o Aix en Provence, Ffrainc sydd wedi dyweddïo yn ddiweddar yng Nghaerfaddon.

**Penblwyddi Arbennig**
Gobeithio fod Pennaeth Ysgol Tal-y-bont, Ms Sioned Morris wedi cael amser da yn dathlu ei phenblwydd arbennig!

Un arall a fu'n dathlu oedran arbennig oedd Sean Byrne, Bryn Haul, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau i chi'ch dau.




**Avril yn 99!**
Mae Avril Bond, Brodawel, Tre Taliesin, sydd ar hyn o bryd yn breswyl yng nghartref Allt y Mynydd ger Llanybydder, bellach yn 99 oed. Dyma hi'n dathlu'i phenblwydd. Deallwn bod ei golwg yn dda a'i bod yn dal i fwynhau darllen *Papur Pawb.*

Dymuna Avril gofio at bawb sy'n ei nabod hi.

**Yn yr Ysbyty**
Bu nifer o'r ardal yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddat, gobeithio eich bod i gyd yn gwella. Dymuniadau gorau i Edwina Rhodes, 1 Maes y felin, Bob Williams, 104 Maes y Deri a Neil Weston, Darren, Tal-y-bont, Ron Hicks, Tre'r ddôl, a Karen Evans, Maesyderi. Erbyn hyn mae Edwina a Neil yn cael gofal yn Hafan y Waun.

Ond un sydd wedi cyrraedd adre wedi ei thriniaeth yn Abertawe ydy gohebydd Papur Pawb, Tal-y-bont, Myfanwy James ac rydyn ni'n falch o glywed bod ei thriniaeth wedi bod yn llwyddiannus.

**Genedigaeth**
Dymuniadau gorau i Tommy a Bronwen Thorndyke, 8 New Street, Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab bach cyntaf anedig, Beauden Idris.

**Croeso**
Croeso i Bethan Clegg, sydd newydd ymgartrefu yn North Road, Tre'r ddôl. Mae Adam Lewis hefyd newydd ymgartrefu mewn tŷ arall yn North Road.

**Ymddeoliad**
Pob lwc i Sue Byrne, Llonio, Llangynfelyn yn dilyn ei hymddeoliad wedi gyrfa hir gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

# Cacennau Blasus

Mae dwy o ferched yr ardal wedi mynd ati i sefydlu busnesau gwerthu cacennau a bwydydd sawrus. Dyma ychydig o'u hanes.




## Cacennau Susan

Pan alwodd gohebydd Papur Pawb yn Erglodd un pnawn roedd arogl bara brith bendigedig yn llenwi'r gegin gan fod Susan newydd dderbyn archeb ar gyfer te i nifer fawr o bobl ac yn brysur wrthi'n paratoi. I'r rhai lwcus ohonoch fu yn nathliadau Papur Pawb a'r Neuadd Goffa yn 2024 mi fuasech wedi cael tamaid o gacen penblwydd o waith Susan – a mawr fu'r canmol iddynt!

Wedi dilyn cwrs arlwyo yng Ngholeg Ceredigion, yn Yr Hen Efail, Ffwrnais y dechreuodd ei gyrfa arlwyo cyn iddi symud i weithio yng nghegin Ysgol Rhydypennau, a bu yno am dros 18 mlynedd. Yn ystod y cyfnod Covid dechreuodd dderbyn archebion am gacennau o bob math a bu'n brysur iawn yn pobi o gartref.

Wedi i fywyd ddechrau dod yn ôl i drefn bu'n coginio yn Y gegin Fach a Chaffi Glyndŵr ym Machynlleth ond ym mis Hydref 2025 (diwrnod ei phenblwydd!) mentrodd i weithio ar ei liwt ei hun gan fynd â'i chynnyrch i farchnad Y Borth sydd yn cael ei chynnal bob bore Iau. Ar ei stondin mae amrywiaeth eang o gacennau (gan gynnwys rhai di-glwten) o fara brith, cacen foron, sbwnj siocled a phlaen, cacen goffi a chnau, cacen lemwn, tartenni ffrwythau gwahanol i gynnyrch sawrus fel 'quiche'. Y mae Susan yn derbyn archebion ac yn paratoi ar gyfer partïon preifat a the angladd. Os am gysylltu gyda Susan ei rhif ffôn yw 07980411783 neu dyfiflock@hotmail.co.uk

## Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Cyfarfu'r aelodau yng nghaffi Poppys ar brynhawn Mawrth, 14 Ebrill, i fwynhau te prynhawn i gloi tymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni. Estynnwyd croeso i bawb gan Meinir Fleming, a chafwyd prynhawn dymunol iawn wrth fwynhau'r bwyd a sgwrsio gyda'n gilydd.




## Y Sied Gacennau

Y tu allan i 11 Maes y Deri mae sied fach arbennig. Dim y math o sied arferol yn llawn o offer garddio, o na, mae'r cynnwys yn llawer mwy melys!

Chloe yw perchennog y sied fach a hi sy'n gyfrifol am ei llenwi bob bore Gwener. Ers yn ifanc iawn mae Chloe wedi mwynhau pobi ac erbyn hyn mae hi wedi troi ei phleser yn fusnes. Yn 2025 mentrodd i agor y sied gacennau 'Baked Delights'.

Ar ddydd Iau pob wythnos bydd yn coginio amrywiaeth o gacennau, pacio a labelu'r cynnyrch cyn eu rhoi fore Gwener yn y sied dros y penwythnos.

Mae modd i chi dalu am y nwyddau gydag arian parod, transffer banc neu gyda cherdyn banc. Wrth holi Chloe pa gacen oedd y fwyaf poblogaidd fe ddwedodd mai y rhai blas biscoff oedd yn gwerthu orau.

Dyma sut i gysylltu gyda Chloe - +447450740898 neu ar gweplyfr / facebook 'Baked Delights'.


Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00
01970 832 674

pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 5

# Ysgol Tal-y-bont



*Daniel - Chwaraewr rygbi o fri*



*Gymnasteg*




*Siaradwyr Cymraeg yr Wythnos Noah Gwenno a Gracie*



*Eisteddfod yr Urdd*

## Croeso

Ar ddechrau tymor newydd, hoffem groesawu Miss Lucie Jones fel athrawes newydd Dosbarth Braich Garw. Mae wedi ymgartrefu'n dda ac rydym yn gobeithio ei bod wedi teimlo croeso cynnes wrth iddi ddechrau ei gyrfa fel athrawes. Croeso cynnes hefyd i Alffi sydd newydd ddechrau yn y Dosbarth Derbyn. Mae'n aelod poblogaidd iawn o deulu Ysgol Tal-y-bont yn barod!

## Ffair Pasg

Cawsom brynhawn hyfryd ar ddydd Sul y 13eg o Fai pan gynhaliwyd Ffair Pasg yr ysgol yn y Neuadd Goffa. Cawsom stondin peintio wynebau, tombola, cacennau, crefftau yn ogystal â helfa wyau Pasg ar gae'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i holl drefnwyr o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am y gwaith paratoi, gweithgareddau hwyliog, casglu gwobrau raffl a chasglu noddwyr. Diolch hefyd i Heledd am baratoi'r bwyd bendigedig. Diolch arbennig i'r noddwyr – Garej Davmor, MW Scafolding a Jewellery House. Casglwyd tua £900 at goffrau'r GRhA sy'n gweithio'n ddiwyd i godi arian er budd pob plentyn yn yr ysgol.

## Glanllyn

Yn ystod wythnos gyntaf y tymor, cafodd Bl 5 a 6 y cyfle i fynd i Glan-llyn i aros am ddwy noson. Cafwyd amser bendigedig, gyda'r plant yn bihafio'n wych yn ystod yr ymweliad. Cawsant gyfle i fwynhau llu o weithgareddau cofiadwy fel dringo wal, rhaffau uchel, canwio, adeiladu rafftiau, cyfeiriannu a gemau potes. Roedd gweld tylluanod a'r disgo gyda'r nos yn uchafbwyntiau i nifer.

Yn sicr, cafwyd profiadau bythgofiadwy a llond bol o hwyl! Seren aur i Mrs Jones am neidio o'r tŵr uchel!

## Eisteddfod yr Urdd

Doedd dim gorffwys i fod ar ôl Glan-llyn gan fod y côr yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ar y dydd Sadwrn. Cawsom berfformiad gwych ac fe enillon nhw'r 3edd wobr allan o 6. Rydym yn falch iawn o bob un a diolch arbennig i Helen Ovens am arwain ac i Mrs Falyri Jenkins am gyfeilio ac hyfforddi.



*Gweithdy Gwyddoniaeth Sbarc*

## PC Hannah

Ar yr 21ain o Ebrill croesawyd PC Hannah i'r ysgol i sgwrsio dyda Dosbarthiadau Allt y Crib a Braich Garw. Ffrind neu Elyn oedd thema sgwrs Blwyddyn 3 a 4 a trafodwyd sut i gadw'n ddiogel ac i beidio siarad gyda dieithriaid. Bu Blynyddoedd 5 a 6 yn trafod Bwlio Seibr.

## Ymweliad gan Sbarc

Cafodd Dosbarthiadau Mynydd Gorddu ac Allt y Crib fore llawn hwyl wrth i ni groesau'r cymeriad poblogaidd Sbarc (Tudur Phillips) i'r ysgol. Pwy feddyliai fod Gwyddoniaeth yn gallu bod yn gymaint o hwyl! Dysgom ni am effaith ymarfer corff ar ein cyrff, beth mae gwahanol adar yn defnyddio yn lle cyllell a fforc, sut mae gwynt yn cael ei greu – a'r uchafbwynt – cwrdd â Bob y Balŵn!

## Gŵyl Rygbi Tag Scarlets

Ennill pob gêm oedd hanes y tîm rygbi tag mewn gŵyl rygbi a drefnwyd gan y Scarlets ar y 30ain o Fai.

## Diwrnod y Ddaear

Siaradwyr Cymraeg yr wythnos
1af o Fai – Noah, Gwenno a Gracie Daniel
Llongyfarchiadau mawr i Daniel o Flwyddyn 6 am ei lwyddiant yn y byd rygbi. Yn ogystal â chwarae i dîm rygbi Aberystwyth, mae'n gapten ar dîm Ceredigion, capten tîm 7 bob ochr Ceredigion ac hefyd wedi cael ei ddewis i chwarae i dîm Gorllewin Cymru yn erbyn tîm Dwyrain Cymru ym Mharc y Scarlets.

## Gymnasteg

Llongyfarchiadau i Delilah a Sorsha am gystadlu mewn cystadleuaeth gymnasteg yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Roedd yn rhaid i'r ddwy berfformio 3 rwtîn twmblo gwahanol. Llongyfarchiadau i Sorsha am ddod yn ail yn ei chystadleuaeth ac i Delilah am ddod yn 4ydd allan o 18!



*Tîm Rygbi Tag*



*Hetiau Pasg CA2*



*PC Hannah a Dosbarth Allt y Crib*

pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 6



*Aelodau CFfI Tal-y-bont yn perfformio*

# Gwanwyn Prysur a Chyffrous i CFfI Tal-y-bont

Roedd misoedd Mawrth ac Ebrill yn gyfnod hynod brysur a chyffrous i ni yng Nghlwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) Tal-y-bont. Fel aelod o'r clwb, rwyf wedi mwynhau pob eiliad o'r gweithgareddau wythnosol a drefnwyd gan ein harweinwyr gwych. Os hoffech ymuno â ni, anfonwch neges atom drwy ein tudalen Facebook - **CFfI Tal-y-bont** – a chofiwch ein dilyn i weld beth rydym yn eiwneud!

Dechreuodd mis Mawrth gyda Chyngerdd Hanner Awr Adloniant y clwb yn cael ei berfformio yn y Neuadd Goffa ar 3 Mawrth, ble cyflwynodd y clwb sioe hwyliog a doniol 'Styc i'r Bocs' a gafodd groeso cynnes gan y gynulleidfa. Ymunodd CFfI Bro-Ddyfi gyda ni ar y noson, gan gyflwyno ei sioe hanner awr nhw a oedd yn llawn egni, hwyl a sbri!

Yn ystod y mis, ymgymerodd rhai o aelodau'r clwb â Her y Cadeirydd – taith gerdded noddedig o 18 milltir o Mydroilyn i Lanarth, gyda'r elw'n mynd at Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'n deg dweud bod ambell droed ddolurus erbyn diwedd y dydd ond er y blinder, roedd yn gyfle gwych i ddod at ein gilydd ac, yn bwysicaf oll, i godi arian hanfodol at achos teilwng.

Roedd y cyfnod hefyd yn llawn digwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys noson gwis ar 17 Mawrth. Yn ogystal, cynhaliwyd ymarfer ar gyfer cwisiau'r sir yn Nhregaron ar 23 Mawrth, lle'r oedd aelodau'r clwb yn cystadlu yn erbyn clybiau CFfI eraill Ceredigion. Cafwyd hefyd Bingo Pasg llwyddiannus iawn, a gynhaliwyd gan Dafydd Jenkins a Geraint Jenkins ar 24 Mawrth yn NeuaddRhydypennau. Roedd yn bleser gweld cymaint o bobl yn dod ynghyd i gefnogi'r clwb.

Roedd mis Ebrill yr un mor brysur, gyda noson *Taskmaster* llawn heriau difyr i'r aelodau - ac i'r arweinwyr hefyd!

Yna cawsom noson ffilm yn y Neuadd Goffa ar 21 Ebrill, cyfle i ymlacio cyn y cyfnod prysur sydd o'n blaenau. Mae Rali CFfI Ceredigion 2026 ar y gorwel, a bydd llawer o'r aelodau'n cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau i arddangos ein doniau fel clwb ar 6 Mehefin ar fferm Tynddraenen, Llangwyryfon. Mae'r paratoadau eisoes wedi dechrau, ac mae pawb yn edrych ymlaenyn fawr at y digwyddiad!

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch o galon i'r rhieni a'r arweinwyr am eu cefnogaeth barhaus. Hebddynt, ni fyddai'r holl weithgareddau hyn yn bosibl. Maent yn gwirfoddoli eu hamser i'n cefnogi fel aelodau ifanc, gan ein helpu i ddatblygu a chasglu profiadau gwerthfawr.

*Ela Jones*

## **Cofio Wil Crye** (1930-2026)

Ar ddechrau yr ail ryfel byd ym 1939 symudwyd miloedd o blant o'r dinasoedd a'r trefydd mawr i gefn gwlad i osgoi y bomio oedd i ddod – y faciwis. Un or rhain oedd Wil Crye o ardal Anfield yn Lerpwl.

Roedd y plant wedi eu rhoi ar drên yn Lerpwl, label ar eu cotiau gyda'u henwau ac yn cario eu "gas mask" ymhlith eu pethau personol. Roedd pabell wedi ei pharatoi yn Y Borth i dderbyn y plant, rhoi pryd o fwyd idddynt ac yna eu dosbarthu, mewn ceir, i wahanol gartrefi yn yr ardal.

Cyrhaeddodd Wil ac un bachgen arall Alltgoch. Roedd ein rhieni a dadcu yn eu cwrdd ac wedi tipyn o drafodaeth penderfynwyd rhoi cartref iddynt dros dro. Roeddent wedi cael matras wellt i gysgu arni a dyma dadcu yn dweud 'fydd dim angen hwn arnoch', rhoi cyllell ynddo a thaflu'r gwellt dan y lloi. Yn anffodus roedd mam y bachgen arall yn hiraethu gymaint amdano bu raid i'w dad ddod lawr ar ei fotobeic i'w mofyn yn ôl adref, felly dyma Wil, crwt naw oed o ganol Lerpwl, ar ei ben ei hun ar fferm yng nghanolbarth Cymru. Ond fe setlodd Wil yn rhyfeddol a mwynhau y rhyddid ar y fferm.

Roedd dwy chwaer Wil hefyd ar y trên ond wrth ddosbarthu'r plant collodd gysylltiad gyda nhw ac aeth peth amser cyn iddo ddarganfod eu bod wedi cael cartref yn Llandre. Roedd athrawon y plant hefyd wedi dod lawr gyda nhw ac roedd y faciwis yn mynychu'r ysgol. Roedd ganddo gof am gymeryd rhan mewn drama yn y Neuadd Goffa a mynd i Fethel gyda'r teulu ar y Sul.

Wedi pedair blynedd yn Alltgoch bu raid i Wil ddychwelyd adref i briodas yn y teulu. Bu yn ôl ar ymweliad yn y chwedegau. Ond yna ryw wyth mlynedd yn ôl dyma David yn derbyn galwad ffôn oddi wrtho – roedd yn dod lawr i Gei Newydd ar wyliau ac am alw heibio a dyma gwrdd a un oedd mam a dadcu wedi siarad llawer amdano. Bu Gwen wedyn yn ymweld â'r teulu yn Ashton in Makerfield yn swydd Gaerhirfryn sawl gwaith.

Rhyw bedair blynedd yn ôl roedd rhai o blant Ysgol Tal-y-bont yn gwneud prosiect ar faciwis. Aeth Gwen i weld Wil a gwneud fideo o'r cyfweliad. Dangoswyd y fideo i'r plant ac aethant ymlaen wedyn i wneud podlediad ar faciwis ac ennill gwobr am eu gwaith. Mae'r podlediad nawr yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd Wil mor falch ei fod wedi medru helpu plant ysgol Tal-y-bont – fe fyddai wedi dod lawr i wneud hynny pe medrai ond roedd wedi mynd yn rhy fusgrell.

Bu farw Wil ddiwedd mis Mawrth eleni. Roedd ei gof am ei amser yn Alltgoch a Thal-y-bont yn fyw i'r diwedd ac roedd yn hoff iawn o siarad amdanynt yn enwedig pan ai Gwen i'w weld.

*Ieuan Morgan*

# Sesiwn Nos Wener

Linda Griffiths fu'n perfformio yn Y Llew Gwyn nos Wener, 24 Ebrill gydag Aled Morgan yn cyfeilio ar yr allweddellau.



Wrth gyflwyno'r caneuon hen a newydd cafwyd hanes magwraeth Linda yn Sir Drefaldwyn, atgofion o'i phlentyndod a'r storiau ynghlwm wrth pob un. Cafwyd canu di-gyfeiliant a rhoddwyd cyfle i'r gynulleidfa ymuno i mewn hefyd. Gyda llais hudolus Linda, y geiriau arbennig, yr alawon hyfryd a chyfeiliant cerddorol Aled fe sirhawyd noson lwyddiannus iawn fel y tystiodd y gymeradwyaeth ar ddiwedd y noson.

# Pwy yw Toby?



Chwilio am rywun i ddilyn Paul oedd y dasg ym meddyliau penaethiaid hirben y Lolfa dros y misoedd diwethaf. Pwy allai ymgymryd â'r cyfrifoldebau o gynnal y gwaith argraffu a hynny mor effeithiol â Paul?

Eu hateb oedd penodi dyn amryddawn sydd â chefndir amrywiol ac sydd wedi dysgu Cymraeg yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ei enw yw Toby Bragg ac fe gefais y pleser o gwrdd ag ef yn ei swyddfa brysur yn y Lolfa.

Sylwais yn syth bod yr enw 'Paul Willams' yn dal ar ddrws y swyddfa ond bellach Toby sydd wrth y llyw a'i ddesg yn llawn o ffeiliau a dogfennau. Roedd yn garedig iawn yn rhoi awr o'i amser prin i mi ymhlith yr holl brysurdeb.

Deuthum i'r casgliad yn syth ei fod yn ddyn hynaws, aml-dalentog a bywiog.

Cafodd ei eni yn Llundain ond bu'n byw yn ystod ei blentyndod yn Norfolk, Bryste a Basingstoke. Treuliodd flwyddyn yn Awstralia cyn dod i'r Brifysgol yn Aberystwyth i astudio Daearyddiaeth. Tra yn y coleg cafodd ddamwain beic ddifrifol gan dorri ei gefn. Byddai rhywun wedi disgwyl na fyddai am edrych ar feic fyth eto ond wedi cyfnod yn rhedeg ysgol hwylio yn Ffrainc a Chanada, gweithiodd mewn cwmni cynhyrchu beiciau yn Lloegr. Ei brif gyfrifoldebau oedd marchnata a gwerthu ar draws Ewrop.

Yna cafodd alwad gan hen gyfaill iddo i ddychwelyd i Aberystwyth i weithio gyda chwmni Summit Bicycles. Roedd gan y cwmni gangen Beics Brenin yng nghanolfan Coed y Brenin ger Ddolgellau ond roedd cau'r ganolfan yn 2025 drwy aneffeithiolrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ergyd i'r cwmni.

Wedi setlo yn Aberystwyth gyda'i deulu - Jen ei wraig a'u dau fab - daeth y cyfle i Toby i ymwneud â busnes cwbl wahanol sef busnes argraffu a chyhoeddi y Lolfa.

A dyma fe felly yn llawn brwdfrydedd ac egni ond â phryder am gymhlethdod y tasgau. Cefais yr 'argraff', serch hynny, na fydd Toby fawr o dro yn meistroli'r holl waith.

Cawsom sgwrs ddifyr a gallaf sicrhau chi ddarllenwyr Papur Pawb fod ein papur bro, a phob papur bro arall, yn ddiogel yn ei ddwylo.

GJ



# Sêl Planhigion & Cwis Cae Bach

Roedd yr olygfa y tu allan i'r Neuadd Goffa ar ddydd Sadwrn olaf mis Ebrill yn debyg i Ddydd San Steffan yn Llundain wrth i giw ffurfio y tu allan i'r drws ar gyfer Sêl Planhigion Cae Bach. Roedd yr aros yn werth chweil gan fod y neuadd yn fôr o wyrddni gyda phlanhigion o bob math, popeth wedi'i rhoi'n garedig gan y gymuned. Ac ar ôl llenwi bocs â phlanhigion, beth well na mwynhau paned a chacen. Unwaith eto, diolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad llwyddiannus hwn mewn unrhyw ffordd. Ychwanegwyd dros fil o bunnoedd at y gronfa a oedd yn wych.

Diolch hefyd i Gareth a Bev yn Y Llew Gwyn am gynnal noson mor hwyliog i godi arian i Gronfa'r Cae Bach. O gynnal cwis a raffl mi godwyd £200 - sy'n swm gwych i'w godi mewn noson.

Mae pawb sydd wrthi yn codi arian i'r Cae Bach wir yn gwerthfawrogi bod Y Llew Gwyn wedi trefnu'r noson ac wedi bod mor barod i'n helpu ni gyda'r ymgyrch i gael Cae Bach newydd a chynhwysol. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i fod yn rhan o'r noson a llongyfarchiadau i enillwyr y cwis sef Barry Morgan, Wayne Aubrey, Sion Jenkins a Kevin Sargent gyda sgôr uchel iawn, ac i enillwyr holl wobrau'r raffl.


GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861

pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 8

# Gorsafoedd Pwer ym Mynyddoedd Y Cambria

Diolch o galon i Lorna Brazell, ysgrifenyddes Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria am sgwrs wych gafwyd yn Llanfach ar 8 Ebrill. Daeth Lorna i fyd cadwraeth biolegol drwy ei gwaith gyda'r gymdeithas uchod. Creodd ei sgwrs ar y Gorsafoedd Pwer Newydd, sydd i ddigwydd yn ardal Papur Pawb, argraff ddofn ar yn rhagor na 70 a ddaeth i'w chlywed hi, cynifer nad oedd yn ymwybodol o'r datblygiadau aruthrol newydd ar ein stepen drws a'u heffaith hir dymor arnom. Pwysleisiodd Lorna bod byd natur a'n hinsawdd mewn argyfwng a bod angen ymateb gref i'r sefyllfa. Mae angen llawer mwy o gynefinoedd natur, rhai mwy o faint ac wedi eu cysylltu un gyda'r llall; nid yw un cynefin ar ben ei hun yn ddigon. Ar ddatblygiad enfawr fel gorsaf ynni adnewyddol mae angen ffyrdd di-ri, mannau i storio offer, maesydd parcio i'r cerbydau o bob math a chadwyn o beilonau i fynd â'r ynni bant. Mae hyn oll yn gam enfawr o ddiwydiannu na welwyd yn y canolbarth o'r blaen ac a fydd gyda ni am byth. Soniodd am dwrbeini yn effeithio byd natur a'r ecosystem. Storfa naturiol o garbon yw ein corsydd mawn, gellir eu hadfer ond ni ellir eu hailgreu os dinistrir hwy a dyna'r hyn ddigwyddith. Nid yw gorddibynnu ar ynni o wynt yn mynd i ateb ein gofynion. Bydd angen cymysgedd o wahanol fathau o greu ynni, mathau mwy addas ar gyfer ein cynefin yma ym mynyddoedd y Cambria. Does dim hanes o ddiwydiant trwm ac felly nid oes dim mewn lle i gynnal yr hyn sydd yn mynd i ddigwydd, ein prif-ffyrdd er enghraifft a'n lonydd cul i gario peilonau hir iawn i'r safle adeiladu. Mae prosiectau llai mewn maint i gynhyrchu ar gyfer y bobl leol yn llawer gwell a mwy addas i ni yma. Does dim tegwch i wlad fechan fel Cymru aberthu ei hadnoddau naturiol pan mae hi eisoes yn cynhyrchu mwy o ynni nag sydd ei angen arni, a hynny'n cael ei allforio, ac heb fawr dim lles i'r Cymry eu hunan. Mae'r Community Benefit Fund bondigrybwll yn talu ond rhan bitw bitw o'r elw anhygoel a wneir gan y cwmniau. Ar ben hynny nid oes dim sail i'r Fund yn gyfreithiol a does dim gwarant ychwaith. Bu cyfle am sesiwn o CaA ar ôl a chwestiwn godwyd oedd am y llygredd a ddaw o'r datblygiadau arfaethedig yn y mynyddoedd hyn ar ben y llygredd o blwm sydd eisoes yn bodoli ar lefel uchel iawn yn nhalgylch Talybont. Roedd Grŵp Gweithredu Waun Hesgog yn bles iawn gyda'r nifer ddaeth i'r sesiwn ac yn gobeithio bydd yn codi ymwybyddiaeth ehangach o'r hyn sydd ar fin digwydd i effeithio'n ddwys arnom.
*Barry Wise ar ran Grŵp Gweithredu Waun Hesgog.*

**Grant Mayhew Ltd**
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

## Teyrnged

### Tegwen Evans
Penygraig, Bont-goch



Cynhalwyd angladd breifat i'r diweddar Tegwen Evans, Penygraig, Bont-goch yn Amlosgfa Aberystwyth ar 10 Ebrill dan ofal Y Parchg D. Lynn Rees gyda chymorth Y Parchg Heather Evans. Dyma grynodeb o'r deyrnged a draddodwyd yn yr angladd gan ei chymydog Richard Huws, Pantgwyn.

Diolch am y cyfle a'r anrhydedd o gael rhoi teyrnged i Tegwen. Estynnaf fy nghydymdeimlad dyfnaf i holl aelodau'r teulu yn dilyn eich colled annisgwyl.

Ganwyd Tegwen (neu Elizabeth Tegwen i roi iddi ei henw llawn) ar 12 Mai 1944, y trydydd o wyth o blant John Edwards a'i briod Margaret Jane (Peg). Roedd ei thad yn fugail gan symud o gwmpas nifer o ffermydd yn eu tro. Ganwyd Tegwen yn fferm Ysguboriau, Ysbyty Ystwyth, ond ei magu yn bennaf yn Tancoed, Capel Dewi, gan fynychu Ysgol Gynradd Comins-coch ac Ysgol Dinas.

Priododd Dewi, mab hynaf William Evans a'i briod Margaret Louisa, Pantgwyn, Bont-goch ar 26 Tachwedd 1966 yng Nghapel Dewi. I'r rhai ohonoch sydd dda mewn mathemateg byddwch wedi dyfalu mai priodas am 60 mlynedd, sef priodas ddiemwnt, y byddai Dewi a Tegwen wedi ei ddathlu mis Tachwedd nesaf. Cyn priodi roedd Tegwen yn gweithio yn Siop Peacocks ac yn ymyl y siop honno, mewn dawns yn Neuadd y Brenin, cyfarfu hi a Dewi am y tro cyntaf. Ar ôl priodi ymgartrefodd Dewi a Tegwen ym Mhenygraig, Bont-goch, drws nesaf ond un i Bantgwyn.

Ymhen amser ganwyd iddynt ddau fab sef Keith yn 1968 ac Aled yn 1972.

Mi fyddai Tegwen wedi bod yn 82 oed mis nesaf. Ac roedd ei phen-blwydd gan amlaf yn syrthio yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'n siwr y byddai'n falch o hynny gan fod yr achos yn agos iawn at ei chalon a byddai'n cyfrannu'n flynyddol at y casgliad lleol a wnaed o ddrws i ddrws yn y pentref.

Yn wir, mae'r geiriau Cristnogol a Chymorth yn berthnasol iawn i'r ffordd roedd Tegwen yn byw ei bywyd. Roedd hi'n deyrngar dros ben i Eglwys Elerch ac roedd ei chrefydd a'i ffydd yn sicr yn bwysig iawn iddi. Roedd hi a Dewi yn ffyddlon iawn i'r gwasanaethau, a byddai Tegwen hefyd yn mwynhau'r nosweithiau cymdeithasol o Gaws, Gwin a Chân a gynhaliwyd am nifer o flynyddoedd i godi arian i'r Eglwys ac roedd hi'n barod iawn ei chymorth yn y babell fwyd.

Ond i ddychwelyd eto at y gair cymorth roedd Tegwen yn barod iawn gyda'i chymorth hithau bob tro, a bu'n garedig iawn ac yn ffrind da i'm gwraig Eirlys. gan gadw cwmni iddi pan fyddwn yn gorfod mynd i ffwrdd am y dydd, a hithau ddim yn mwynhau'r iechyd gorau. Roedd Tegwen yn berson eithaf preifat ac o bosib yn hapusach mewn cwmni bach yn hytrach nag mewn criw mawr.

Ers inni symud i Bantgwyn dros 23 mlynedd yn ôl yn y flwyddyn 2002 bu Tegwen ymhlith y rhai a fu mwyaf croesawus i ni fel teulu, a byddai'n taro heibio i'n gweld yn rheolaidd. Roedd ganddi hiwmor cynnil iawn – medrai fod yn ddireidus hefyd ar adegau a byddai wrth ei bodd yn tynnu coes gyda'i gwên arbennig.

Bydd llawer yn ei cholli, a neb yn fwy na Dewi, Keith, Aled, Julie a Sharon. Diolch am gael ei hadnabod, a diolch eto i Dewi am y fraint o gael cynnig teyrnged fer iddi yma heddiw.

Cysga'n dawel Teg. Coffa da amdanat.

*RH*

pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 9

# Yn Naturiol

## Creaduriaid y nos

Mae ystlumod yn chwarae rolau pwysig yn ein hamgylchedd. O'r oddeutu 65 o rywogaethau mamaliaid gwyllt sy'n bridio yn y DU, ac eithrio mamaliaid y môr, ystlumod yw 17 ohonynt – sef eu chwarter! Ystlumod hefyd sy'n ffurfio cyfran debyg o rywogaethau mamaliaid yn fyd-eang. Yn y DU, byddant ynbwydo ar bryfed gan ddarparu modd o reoli plâu: dywedir y gall yr ystlum-lleiaf cyffredin fwyta dros 2,000 o wybed mewn un noson. Dipyn o gamp a hwythau'n pwyso'r un maint â darn 20 ceiniog. Maent yn sensitif iawn i newidiadau yn yr amgylchedd ac felly mae monitro newidiadau ym mhoblogaethauystlumod yn bwysig er mwyn deall iechyd ein hecosystem.

**Sut gallwch chi helpu**

Mae angen ein help ar ystlumod. Fel unigolion, gallwn ni ystyried sut byddwn ni'n rheoli ein gerddi er mwyn denu pryfed sy'n hedfan gyda'r nos. Gallwn ni leihau nifer ein goleuadau allanol a all amharu ar hela a chymudo. Gallwn greu mannau diogel i glwydo.

Os oes gynnoch chi ystlumod yn byw yn eich eiddo maent wedi'u diogelu gan y gyfraith a rhaid rhoi ystyriaeth iddynt cyn gwneud unrhyw waith. Fodd bynnag, mae cyngor a chymorth ar gael i unrhyw un yn y sefyllfa yma (gweler isod).

Mae Grŵp Ystlumod Gogledd Ceredigion a leolir yn Nhal-y-bont yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod sydd wedi ymroi i gadwraeth ystlumod a'u cynefinoedd. Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys peth wmbreth o wybodaeth. Yn lleol, mae gwirfoddolwyr Grŵp Ystlumod Gogledd Ceredigion yn gallu helpu gydag ystlumod sydd wedi'u hanafu neu'n sâl a chynghori pobl o ran pa fath o ystlumod sydd ganddyn nhw yn eu heiddo a sut mae cyd-fyw efo nhw, ond fedrwn ni ddim helpu gyda cheisiadau cynllunio. Byddwn yn cynnal arolygon sy'n cyfrannu at gofnodionpoblogaethau'r Ymddiriedolaeth gan ddangos newidiadau hanesyddol sy'n helpu'r llywodraeth i lunio polisïau.



*Ystlum hirglust brown, allan yng ngolau dydd ger Pennant, ar ôl bwyta pryfyn. Trwy garedigrwydd Ali Curzon*

Mae yna groeso cynnes i chi ymuno yn ein digwyddiad cyntaf ar gyfer 2026 yng Ngwarchodfa RSPB Ynys-hir 23 Mai. Ar ôl sgwrs fer er gwybodaeth, byddwn yn mynd am dro gyda synwyryddion ystlumod.

Am fwy o wybodaeth neu i ymaelodi â Grŵp Ystlumod Gogledd Ceredigion (a chroeso mawr i chi wneud!) ewch at wefan yr Ymddiriedolaeth: https://www.bats.org.uk/ neu chwilio am Grŵp Ystlumod Gogledd Ceredigion ar Facebook.

*Alan MacMillan/golygydd Annette Smith NCBG*

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
07939 604804




## Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Roedd yn braf iawn dod at ein gilydd ar nos Lun 20 Ebrill wedi inni orfod gohirio ein cyfarfod ym mis Mawrth oherwydd y gwaith ffordd.

Cyflwynodd Enid Evans ein gŵr gwadd, Richard Huws, Bontgoch a gychwynnodd trwy ddatgan bod pobl diddorol iawn wedi bod yn byw ac yn dal i fyw ym Montgoch! Aeth ymlaen i roi hanes rhai llenorion ac artistiaid fu'n byw yno gan gychwyn gyda'r awdures Ruth Evans, gwraig Ifor L Evans, cyn brifathro Prifysgol Cymru Aberystwyth. Hi oedd awdur y gyfrol 'Plas Penglais' ymysg nifer o gyfrolau eraill ac roedd yn uchel ei pharch ymysg academyddion Aberystwyth ei chyfnod. Rhoddodd Richard hanes rhai artistiaid hefyd gan gynnwys Jack Yates. Diolchwyd i Richard gan Mair Rowlands. Ar ddiwedd ein cyfarfod derbyniwyd casgliad o £265 i Wcrain a throsglwyddwyd yr arian a llond car o nwyddau a dillad plant i Jenny Jenkins.

Rydym, fel cangen, yn falch o glywed bod Jenny yn gwella wedi ei hanffawd ac yn ei llongyfarch yn gynnes ar gael ei derbyn i Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

## Yr Etholiad

Mae'r Etholiad i'r Senedd wedi digwydd bellach ac o dan y drefn newydd mae chwech Aelod yn ein cynrychioli ni. Mae'r etholaeth yn anferth - yn ymestyn o dalgylch Papur Pawb i ochrau Doc Penfro a Hwlffordd. Pwy felly yw'r chwech AS?

Yn gyntaf mae Elin Jones (Plaid Cymru) wedi'i hail-ethol; yna daw dwy Bleidwraig arall: Kerry Ferguson o Aberystwyth ac Anna Nicholl o Aberteifi. O gyffiniau Aberteifi y daw'r Ceidwadwr Paul Davies, ac o odre sir Benfro y daw y ddau gynrychiolydd o Reform UK sef Paul Marr a Susan Archibald. Pob dymuniad da i'r chwech.

# Colofn Ben Lake AS



Gyda thymor y gwanwyn bellach wedi cyrraedd, mae tymor sioeau ac eisteddfodau wedi dechrau. Rwyf wastad yn mwynhau ymweld â'r amryw o sioeau ac eisteddfodau bach hyd a lled yr etholaeth, ac yn edrych ymlaen yn arbennig at gael gwneud eto eleni.

Cawn wledd o ddigwyddiadau i ddechrau yn Sadwrn Barlys yn Aberteifi, Eisteddfod Calan Mai yn Aberystwyth a Tregaroc yn Nhregaron. Yn ogystal, edrychwn ymlaen at Eisteddfodau Bont, Penrhyn-coch, Rhydlewis, Dihewyd a Chapel y Fadfa ym mis Mai. Mae dechrau tymor y sioeau hefyd ar y gweill, gan gynnwys Sioe Feirch Llambed a Sioe Sir Ceredigion cyn iddynt barhau trwy'r haf. Bydd hefyd amryw o ddigwyddiadau yng ngogledd Sir Benfro, gan gynnwys Eisteddfodau Maenclochog, Llandudoch a Gŵyl Werin Abergwaun. Bydd nifer o ddigwyddiadau eraill yn parhau dros yr haf ac rwy'n edrych ymlaen yn arw at gael ymweld â nifer ohonynt.

Mae'r digwyddiadau yma bob tro yn gyfle arbennig i weld y cystadlu, arddangos a gwerthu, ac rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle y mae'r digwyddiadau hyn yn ei gynnig i gwrdd â phobl o bob rhan o'r etholaeth, a'r cyfle i glywed yn uniongyrchol gennych chi. Braf yw cael gweld y llu o dalent a'r llwyddiant sydd gyda ni o fewn yn yr etholaeth - boed yn gystadleuwyr neu'n fusnesau.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r holl wirfoddolwyr sy'n rhoi gymaint o'i hamser i drefnu sioeau ac eisteddfodau ac yn cefnogi digwyddiadau codi arian hyd a lled yr etholaeth. Mae'r gwaith pwysig yma yn dyst bod ein cymunedau lleol mor gryf ag erioed. Mae'r gwaith gwych yma yn atgoffa rhywun o ba mor lwcus ydym ni i fyw mewn ardal lle mae digwyddiadau cymunedol dal i fod yn galon i'r ardaloedd gwledig.

Wrth i mi gydnabod rôl hanfodol ein heisteddfodau a'n sioeau lleol, rhaid i mi longyfarch Aberystwyth, Ceredigion ar ei dynodiad fel Dinas Llen UNESCO a diolch i'r holl fudiadau a wnaeth noddi'r cais. Gallwn oll fod yn falch iawn fod yr ardal sy'n gartref i sefydliadau megis y Cyngor Llyfrau, Y Llyfrgell Genedlaethol a'r Brifysgol yn cael ei hadnabod ymhlith dinasoedd llen mwyaf arwyddocaol y byd.

Bydd cyfnod yr eisteddfodau yn gyfle gwych arall i ni arddangos yr arbenigedd a'r dalent llenyddol sydd gyda ni yma yng Ngheredigion Preseli, a hynny cyn i gymunedau Fro y Garreg Las croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol. Eleni mae'r Ŵyl yn dathlu 850 mlynedd ers yr Eisteddfod gyntaf yn Aberteifi, a hoffwn longyfarch cymunedau'r Garreg Las am eu holl waith yn trefnu digwyddiadau di-ri wrth godi arian. Diolch i'r gwaith caled yma, rwy'n ffyddiog fydd yr Eisteddfod eleni yr un mor hanesyddol â'r un yng Nghastell Aberteifi nol yn 1176!

Rwy'n annog pawb i ymweld neu i gymryd rhan yn eich eisteddfod neu sioe leol i gefnogi'r traddodiadau arbennig yma, ac rwy'n edrych ymlaen at weld nifer ohonoch mewn neuadd eisteddfod neu ar faes sioe dros y misoedd nesaf.




# Cletwr

Mae'r haf wedi cychwyn yn wir - cymaint o haul! Ac mae'r ymwelwyr yn dod i'r ardal ac i Cletwr yn eu miloedd.

Mae rhaglen hir o ddigwyddiadau yng Nghletwr ar y gweill - yn gyntaf, Dydd Sul 17eg o Fai yw ein Gŵyl y Peillwyr blynyddol. Manylion llawn ar Facebook ac yn y siop. Wedyn ar 4ydd o Fehefin bydd Ian Richards yn siarad am hanes 'Maen Tywyn' - sy'n cynnwys ysgrif hynaf Gymraeg yn y wlad. 7fed o Fehefin (nos Sul) bydd y band 'Paper Jam' yn ein diddanu ni, ac ar 18fed o Fehefin, cerddoriaeth wahanol, gyda dychweliad o 'Sinffonia Cymru' eto am gyngerdd clasurol AM DDIM.

Mae'r siop yn llawn danteithion, mae cacennau a choffi yn y caffi, ond yn anffodus rhaid i ni chwilio am sawl aelod staff a gwirfoddolwyr newydd, gan fod rhai o'n tîm yn ein gadael ni am borfeydd newydd, neu am ymddeoliad haeddiannol. Ydych chi am ymuno a'r tîm? Rydym angen berson i weithio fel cynorthwyydd yn y gegin (rhan amser), hefyd gwirfoddolwyr i bobi ein cacennau, oriau hyblyg, efallai 2-3 awr, neu ddiwrnod llawn am y tro. Ond yn bennaf, mae ein seren o reolwraig, Chloe, wedi penderfynu symud ymlaen i bethau newydd, ac mae angen Rheolwr Busnes newydd - os oes diddordeb gennych, cysylltwch â nigelc@cletwr.com am fanylion llawn.

Mae'r siop a chaffi yn brysur, ond dyw popeth ddim yn fêl i gyd. Rydym heb adfer yn llawn y problemau a gawsom dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hi wedi bod, ac yn dal i fod, yn adeg anodd i bob busnes bach. Er ein bod ni'n agos at ennill ein costau, dydyn ni ddim wedi cael cyfle i ailadeiladu arian wrth gefn yn y banc. Os bydd peiriant yn torri - oergell, peiriant golchi llestri, ffwrn - does dim arian sbâr gennym am un newydd. Ac mae costau yn dal i godi - cyflogau uwch yn bennaf (sy'n beth da, wrth gwrs). Rydym yn goroesi o fis i fis, sy'n anodd.

Dros y 18mis diwethaf rydym wedi torri ein costau'n sylweddol. Mae'r Bwrdd wrthi'n chwilio am ffynonellau arian ychwanegol, grantiau yn bennaf, ond does dim llawer addas i'w gael. Rydym yn meddwl am ail-strwythuro fel elusen, a fydd yn agor mwy o gyfleoedd inni am grantiau. Felly, oherwydd hyn, rydym wedi penderfynu agor cyllidwr torfol eto ar Just Giving, a gofyn i'n cwsmeriaid a chefnogwyr am gyfraniadau i roi balans nôl yn y banc ac i sicrhau y gallwn gadw Cletwr ar agor pa bynnag argyfyngau yn digwydd. Y cyfeiriad yw: https://www.justgiving.com/crowdfunding/cletwr. Diolch yn fawr ymlaen llaw am unrhyw gyfraniad.

Ond, cewch gefnogi Cletwr mewn ffyrdd eraill, haws. Defnyddiwch Cletwr! Rhywbeth i'r gymuned, sy'n berchen i'r gymuned, er lles y gymuned yw Cletwr. Dewch i mewn i'r caffi am ddysgled bob mis? Dewch i brynu pethau yn y siop bob wythnos. Dewch i'n digwyddiadau. Y ffordd orau i helpu'r busnes, yn arbennig pan ddaw'r amser tawel dros y gaeaf, yw trwy wario arian yn Cletwr.

Mae Cletwr yn gymaint mwy na siop a chaffi - mae'n gwneud cymaint i'r ardal: darparu swyddi, darparu hyfforddiant a chyflog i ddwsinau o bobl ifanc y fro, cynnig lle i bobl wirfoddoli a gadael eu cartrefi, cwrdd â phobl, a chodi hyder. Mae'n lle i fusnesau lleol werthu eu cynnyrch i bobl leol ac i ymwelwyr, ac yn dod â channoedd o filoedd o bunnau i mewn i'r ardal bob blwyddyn. NI sy berchen Cletwr, mae'n hanfodol ein bod ni'n sicrhau ei dyfodol.

*NC*



pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 11

# Y Gair Olaf



Pa mor ddibynadwy yw'r system "ticio bocsys" ar gyfer asesu?

Bum yn byw mewn tŷ cerrig a gafodd ei adeiladu tua 1840. Olew oedd y tanwydd ac er mwyn arbed egni fe ychwanegwyd gwydro dwbl ac insiwleiddio'r llofft. Ar ôl gwneud y newidiadau, daeth cynrychiolydd o'r TPY, sef Tystysgrif Perfformiad Ynni (sefydlwyd yn 2007), a'i asesu trwy ateb cwestiynau gan dicio bocsys, a'r dyfarniad oedd gradd D.

Ar ôl byw yno am dros 40 mlynedd penderfynwyd symud i 'fyngalo' oedd wedi ei adeiladu tua 1940. Cyn symud fe addaswyd yr adeilad trwy ddymchwel y cyfan heblaw am y waliau ac ychwanegu llawr arall. Eto, er mwyn arbed olew, fe ychwanegwyd gwydro triphlyg, insiwleiddio'r tô gyda trwch o 300mm a'r waliau a'r llawr gyda 200mm. Gosodwyd gwres tan y llawr ac hefyd system adfer gwres. Y bwriad yn y dyfodol oedd i wneud y tŷ yn un 'goddefol' ac i wneud hynny roedd rhaid cael gwared yr olew a defnyddio system 'pwmp gwres ffynhonnell aer ', paneli solar a batri i storio'r trydan. Mae grant ar gael i osod 'pwmp gwres ffynhonnell aer' (sydd ar gael i bawb) ond rhaid cael TPY cyn cael y grant. Daeth cynrychiolydd o'r TPY i wneud yr asesiad trwy dicio bocs. Yn anffodus nid oedd cwestiwn yn holi am y costau blaenorol i gymharu a'r rhai presennol. Canlyniad yr asesiad - gradd E - er ein bod yn defnyddio traean o'r olew! Mae E yn waeth na D ar y raddfa TPY. Mae'n debyg mai rhai o'r rhesymau oedd nad oedd system adfer gwres yn yr holiadur..... Rydym yn bwriadu cael asesiad arall gan bod yr olew wedi'i datgysylltu a'r cyflenwad ynni bellach yn dod o 'bwmp gwres ffynhonnell aer', paneli solar a batri sy'n storio'r egni.

Mae'n amlwg bod angen diweddaru'r asesiad i gyd-fynd a'r datblygiadau fel bod y system ticio bocsys yn adlewyrchiad gwell o'r sefyllfa.

*Sandra Laverty*

# Tîm y Talwrn yn yr 8 Olaf

Llongyfarchiadau i Dîm Talwrn Tal-y-bont ar gyrraedd yr 8 olaf eleni mewn gornest a gynhaliwyd yng Nghoed-y-bryn a ddarlledwyd ar Radio Cymru nos Sul 3 Mai (ac sydd ar gael i wrando ar BBC Sounds). Heb y capten, Gwenallt Llwyd Ifan ar y noson, llwyddodd Phil Davies, Anwen Pierce a Phil Thomas guro Tîm Beca mewn gornest ddifyr. Yn y rownd nesaf byddant yn cwrdd â'r Ffoaduriaid, sef y tîm a'u curodd yn 2016 pan gyrhaeddodd Tal-y-bont y rownd gyn-derfynol am y tro cyntaf. Pob lwc iddynt y tro hwn. Recordir yr ornest nos Fawrth 9 Mehefin. Dyma flas ar y cynnyrch a ddarlledwyd.

**Pennill telyn yn cynnwys y llinell 'Colli'r dydd yw colli'r bore'**

'Colli'r dydd yw colli'r bore'
Oedd fy nghri ym mlodau'm dyddie.
'Codi'r nos a cholli'r bore'
Erbyn hyn yw nhynged inne.
*Phil Davies*

**Cwpled caeth: beddargraff cyfreithiwr neu gyfreithwraig**

O flaen rheithgor mae'n gorwedd;
mae'n pro-bono yn y bedd.
*Gwenallt*

## Pob lwc i Ddisgyblion Penweddig

Dyma grŵp pres Ysgol Penweddig, un o nifer o bartion ac unigolion a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn dros y Sulgwyn.




NICEIC APPROVED CONTRACTOR

**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com

**Y LLEW GWYN**
**Tal-y-bont**

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

**Ar agor bob dydd**
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**
**(Un cwrs / Dau gwrs)**
Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**
**garethwhitelion@outlook.com**

**Garej Davmor**
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278





Dewch o hyd i ni ar @Garej Davmor

pp Mai 26.qxp_Layout 1 12/05/2026 06:38 Page 12

# Chwaraeon a Hamdden

## Llwyddiant arbennig yn y SheUltra



Bu'n benwythnos i'w gofio i Glain Jones, 14 Dôl Pistyll, Tal-y-bont a gwblhaodd ei SheUltra cyntaf erioed ar ddydd Sadwrn, 11 Ebrill ym Mhen Llŷn — ras heriol o 34 milltir — dan amodau tywydd gwirioneddol garw. Yn un o'r cystadleuwyr ieuengaf i gymryd rhan eleni, dangosodd ddewrder, penderfyniad a gwydnwch eithriadol ar hyd y daith galed o amgylch ardal Pen Llŷn. Ychwanegwyd at yr her gan wyntoedd cryfion, cesair, glaw trwm, a hyd yn oed ciwiau ar rai rhannau o'r llwybr arfordir — ond ni wnaeth hynny ei hatal rhag croesi'r llinell derfyn gyda gwên a theimlad o gyflawniad anferthol.

Mae'r gamp hyd yn oed yn fwy ysbrydoledig o ystyried mai hwn oedd ei SheUltra cyntaf, ac eto llwyddodd i'w gwblhau gyda balchder mawr. Mae'r SheUltra yn ddigwyddiad ultra farathon mwyaf y byd i fenywod yn unig a nod y digwyddiad yw codi ymwybyddiaeth a chyllid ar gyfer ymchwil canser menywod, tra'n meithrin awyrgylch cymunedol gefnogol. Roedd y ras yn her gorfforol a meddyliol lawn. Er gwaethaf blinder, poen a'r amodau garw, profodd Glain bod meddwl dros fater mor bwysig â ffitrwydd corfforol.

Llongyfarchiadau cynnes hefyd i'w modryb, Rhian Jones, sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth enfawr iddi. Wedi cwblhau'r SheUltra y llynedd ac eto eleni, hi oedd y sbardun i annog ei nith i gymryd yr her. Mae hon yn stori wirioneddol ysbrydoledig o gefnogaeth deuluol, dyfalbarhad ac uchelgais – camp ryfeddol gan y ddwy, a balchder mawr i'r gymuned leol.



Llongyfarchiadau i'r gwenyn meirch hyn, y 'Tal-y-bont Hornets', sydd wedi derbyn Y Wobr Chwarae Teg a ddyfernir gan Gynghrair Ieuenctid dan 15 oed Aberystwyth. Enwebwyd y tîm gan fod y chwaraewyr wedi dangos parch at dimau eraill, eu hyfforddwyr a'r dyfarnwyr. Dywedodd eu hyfforddwr Kam Rahmann: 'Rwy'n falch iawn... mae gyda ni garfan o chwaraewyr sy'n rhoi o'u gorau bob wythnos. Gwn iddo fod yn dymor anodd gan ein bod heb ddisgyblion o flwyddyn 10, ond bydd tymor nesaf yn llawer mwy addawol.' Mae'r chwaraewyr yn diolchgar iawn i Kam a Dean am eu hyfforddi yn ystod y tymor.

## Nofio



Llongyfarchiadau i Mari Evans, Osian Jones a Nesta Roberts, fu'n cynrychioli'r Clwb Ffermwyr Ifanc mewn Gala Nofio yn ddiweddar. Daeth Mari yn gyntaf yn y Dull Blaen i ferched 18 neu iau, 4ydd yn y Dull Broga i ferched 18 oed neu iau ac yn 4ydd fel y nofiwr benywaidd cyflymaf. Daeth Osian yn ail yn y Dull Blaen i fechgyn 18 oed neu iau a cyntaf yn y Dull Broga i fechgyn 18 oed neu iau.

**Canlyniadau**

Cwpan Len a Julia Newman: rownd gynderfynol:
Penparcau 5 Tal-y-bont 1
Cwpan y Cynghrair: rownd gynderfynol:
Penparcau 4 Tal-y-bont 0




